

PLANT YR HEN DESTAMENT A PHLENTYN Y TESTAMENT NEWYDD (Gwasanaeth y Nadolig)

Emyn: 463 – *O deuwch, ffyddloniaid*

Cyd-weddiwn:

Ein Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, dewn ger dy fron ar ddechrau'r oedfa hon i ofyn dy fendith ar ein gwasanaeth. Helpa ni i dderbyn yr hen, hen neges yn danbaid newydd heddiw, ac i fwynhau cyfleu gwefr a llawenydd y Nadolig i'n perthnasau a'n ffrindiau. Gofynnwn hyn yn enw'r Un a anwyd ym Methlehem Jwdea, ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Llefarydd:

Tua dwy fil o flynyddoedd yn ôl, ganwyd plentyn arbennig iawn ym Methlehem Jwdea, a chofiw'n amdano ef hyd heddiw. Am ganrifoedd cyn ei ddyfodiad i'r byd, bu pobl yn Israel yn proffwydo ac yn disgwyl yn eiddgar iawn amdano. Yn y garol gyntaf a ganwn, os gwrandawn ar yr hen eiriau'n ofalus, fe glywn am hyn:

*'Ar gyfer heddiw'r bore'n faban bach, yn faban bach
Y ganwyd gwreiddyn Jesse'n faban bach;
Y Cadarn ddaeth o Bosra,
Y Deddfwr gynt ar Seina,
Yr lawn gaed ar Galfaria'n faban bach, yn faban bach,
Yn sugno bron Mariä'n faban bach.*

*Caed bywiol ddŵr Eseciel ar lin Mair, ar lin Mair,
A gwir Feseia Daniel ar lin Mair;
Caed bachgen doeth Eseia,
'R addewid roed i Adda,
Yr Alfa a'r Omega ar lin Mair, ar lin Mair
Mewn côr ym Methlem Jwda, ar lin Mair.'*

Emyn: 464 – *Ar gyfer heddiw'r bore'n faban bach*

Llefarydd:

Yn yr hen garol hyfryd rydym wedi ei chanu, clywsom am faban Mair a anwyd ar gyfer ein byd, ac er ein mwyn ni heddiw. Clywsom hefyd am rai o arwyr yr Hen Destament a fu'n edrych ymlaen am ei ddyfodiad. Yn ein gwasanaeth heddiw, arhoswn yn yr Hen Destament, ac edrychwn yn arbennig ar rai o'r plant a'r bobl ifainc y mae'n cyfeirio atynt. Fe ddechreuwn gyda hanes Dafydd a'i frwydr yn erbyn Goliath.

DRAMODIG DAFYDD A GOLIATH

Dafydd: Goliath o Gath, rwy'n barod amdanat ti! A wyt ti'n barod i farw?

Goliath: Pwy sy'n galw arna' i mor hy? O ie – fe welaf i – dyna lipryn bach gwan wyt ti. Mae golwg bugail arnat ti. Cer yn ôl at dy braidd. Wnaiff dy ddefaid ddim niwed i ti!

Dafydd: O na, wna i ddim mo hynny – hyd yn oed os wyt yn fwy na mi.

Goliath: Yn fwy na ti! Ho! Ho! Dyna ddoniol! Rwy'n gawr o ddyn, ac rwy'ti ond yn damaid bach pitw, ac yn perthyn i genedl fach wan! Cer adref cyn i mi dy wneud yn fwyd i'r adar!

Dafydd: Falle mod i'n fach ond rwy'n ymladdwr gyda'r gore. Rwyf wedi lladd mwy nag un llew ac arth wrth edrych ar ôl y defaid.

Goliath: Wel, wel! – a rŵan rwy'ti am ladd yr arth yma! Ho! Ho! ond ble mae dy arfau di? Edrycha ar fy ngwisg ryfel i, helm o bres, tarian ddiogel ac arfwisg enfawr.

Dafydd: Hen bethe trwm ydyn nhw. Maen nhw'n rhy drwm i mi gerdded ynddyn nhw.

Goliath: Wel, beth am dy darian di?

Dafydd: Yr Arglwydd Dduw yw fy nharian i – Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob.

Goliath: Hei! Dim ond un Duw rhwng cymaint o bobl! Rydych chi'r Israeliaid yn bobl ddigri iawn. Rydych chi'n brin o bopeth – o dduwiau ac ymladdwyr! Mae gennym ni ddigonedd o

dduwiau, ac fe gaf help sawl un i guro dy dduw bach di – fe gei di weld.

Dafydd: Dyna ddigon, Goliath o Gath. Cei fy ngwawdio i faint fynni di, ond mae'n rhaid i ti barchu'r unig wir Dduw, ac fe fydd ef yn awr yn fy helpu i dy guro di. Rwy'n tynnu fy ffon dafl allan.

Goliath: *(gan droi a dweud wrth y gynulleidfa)*
Ffon dafl? Mae'r bachgen yn meddwl mai ci ydw i – ffon dafl yn wir!

Dafydd: Wel, dyma'r gyntaf o'r pum carreg sy gennyf fi. Rwy' n rhoi'r garreg yn y ffon dafl rŵan, Goliath o Gath.

Goliath: Rydw i wedi cael digon ar dy hyfdra di – Israeliad pitw! Rwy'n dod i roi taw arnat ti am byth.

Dafydd: Dyma dy ddiwedd, Goliath o Gath. *(Goliath yn syrthio)*
Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd Dduw a roddodd i mi'r fuddugoliaeth hon.

Llefarydd:

le, buddugwr oedd Dafydd, a daeth ef yn nes ymlaen yn Frenin ac yn arweinydd ei bobl. Un arall a dyfodd i arwain ei bobl o'u caethiwed oedd Moses. Ar ôl ei eni, bu raid i'w fam ei guddio rhag yr Eifftiaid creulon. Tybed a ydych yn cofio'r hanes? Fe genir cân am Moses gan y plant:

*'Bu'r baban bach Moses mewn cawell o frwyn,
Yn cysgu'n yr afon yn dawel heb gŵyn.
Fe welodd ei bobl mewn adfyd bob dydd
A thyfodd i'w harwain o'r gaethglud yn rhydd.'*

(Gellir ei chanu ar dôn '*Draw 'mhell yn y preseb*')

Llefarydd:

Do, fe arweiniodd Moses bobl Israel allan o gaethiwed yr Aifft i wlad Canaan, ac rydym yn cofio hynny heddiw yn ddiolchgar. Gŵr arall a fu'n allweddol yn hanes y genedl Iddewig yw Abraham, a chofiwn amdano yn teithio mewn ffydd o Ur y Caldeaid i wlad ddieithr a

ddangosodd Duw iddo. Roedd ffydd Abraham yn Nuw yn ddwfn iawn, ac fe ddaw hyn yn gliriach eto yn yr hanes amdano ef a'i fab Isaac, un arall o blant enwog yr Hen Destament.

Tybed beth oedd meddyliau Isaac wrth iddo deithio gyda'i dad i fynydd Moreia i offrymu poeth offrwm i Dduw? Efallai mai rhywbeth fel hyn a redai drwy ei feddwl, ac yntau'n graddol sylweddoli'r gwir ofnadwy mai ef ei hunan oedd i gael ei aberthu ar yr allor.

YMSON ISAAC

*Dyna ddistaw ydy 'nhad
A finnau wrth fy modd.
Cael mynd am unwaith efo fo
I Moreia – i offrymu rhodd.*

*Dyna ddistaw ydy 'nhad
A finne'n cael fath sbri!
Cyfrwyo'r asyn, hollti'r coed
A'r ddau lanc efo fi.*

*Dyna ddistaw ydy 'nhad –
Dri diwrnod ar y daith.
Rhaid gado'r gweision yma 'nawr,
Awn ninnau i wneud y gwaith.*

*Dyna ddistaw ydy 'nhad,
Mae'n dechrau mynd i oed.
Caiff gario'r fflagl a'r gyllell fach,
Mi gariaf inne'r coed.*

*Dyna ddistaw ydy 'nhad
A'i lygaid yn llawn poen.
Nid dyma'r pryd i'w holi ef
Ond tybed, ble mae'r oen?*

*Dyna ddistaw ydy 'nhad
Wrth ddweud, 'Fy machgen, clyw!
Am oen yr offrwm y tro hwn
Ymddiried wnawn yn Nuw.'*

*Mor ddistaw ydw inne'n awr,
Mae'n dod yn glir i gyd.
Mae'r Arglwydd wedi gofyn am
Fy nghael i'n aberth drud.*

Llefarydd:

Oedd, roedd ffydd Abraham yn Nuw mor fawr fel y bodlonodd roi'r peth mwyaf gwerthfawr i'w Arglwydd – rhoi Isaac ei fab yn aberth. Fel y gwyddom, nid oedd Duw yn disgwyl i Abraham gyflawni hyn, ac fe'i harbedwyd rhag aberthu Isaac, ond fe ddangosodd Abraham barodrwydd, os oedd rhaid, i gollu ei fab er mwyn boddhau ewyllys Duw.

Symudwn ymlaen at hanes arall o'r Hen Destament, lle gwelwn ddewrder o fath arall. A ydych yn cofio'r hanes am y llanc ifanc a oedd yn barod i ddiodef dros ei ffydd, ac a daflwyd i ffau'r llewod fel cosb am wrthod addoli'r brenin? Dyma'r plant lleiaf i ganu amdano:

Plant bach i ganu: *Ble mae Daniel?*

*Ble Mae Daniel? Ble mae Daniel?
Yn ffau'r llewod, yn ffau'r llewod.
Am beth? Am beth?
Am iddo beidio addoli'r delwau.*

*Beth ddigwyddodd? Beth ddigwyddodd?
I Daniel? I Daniel?
Dim byd. Dim byd.
Caeodd angel safnau'r llewod.*

*Fe ddaeth allan, fe ddaeth allan
O ffau'r llewod, o ffau'r llewod
Yn iach, yn iach,
Am iddo gredu yn ei Arglwydd.*

Llefarydd:

Do, fe ddaeth Daniel allan o ffau'r llewod yn holliach, ac roedd y brenin yn falch iawn o hynny. Ymhell cyn geni Daniel, roedd gŵr o'r enw Naaman wedi dioddef yn hir o'r gwahanglwyf, ac fe gafodd iachâd drwy ymolchi seithwaith yn afon loddonen. Yn yr hanes rhyfedd hwn, fe roddir amlygrwydd i ferch ifanc a gipiwyd o'i gwlad ei hun gan Naaman i fod yn forwyn i'w wraig.

Un diwrnod, dywedodd gwraig Naaman wrth ei morwyn ifanc o Israel am afiechyd ei gŵr, ac mae ei hymateb yn ddiddorol iawn. Rwyf am ichi ddychmygu eich bod yn gwrando ar y sgwrs.

DRAMODIG – NAAMAN

Gwraig Naaman:

Pam rwyf ti'n edrych mor drist? Hiraeth sydd arnat ti am dy wlad Israel?

Y Llances:

Wel, mae hiraeth arna i, ond nid dyna sy'n fy mhoeni heddiw.

Gwraig Naaman:

Be sy'n bod felly?

Y Llances:

Poeni am eich gŵr – am f'arglwydd Naaman – ydw i. Mae golwg wael arno fo.

Gwraig Naaman:

Oes yn wir. Mae'r gwahanglwyf yn gwneud iddo edrych yn ofnadwy. Mae o wedi trio pob ennaint, ac wedi gofyn cyngor y doethion i gyd,

ond mae'r hen glefyd yn bwyta ei gnawd. Roedd o'n arfer bod mor olygus.

Y Llances:

Wel, fe wn i am un gŵr doeth sy heb ei weld o.

Gwraig Namaan:

Pwy yw hwnnw?

Y Llances:

Eliseus y proffwyd o Israel.

Gwraig Naaman:

Mae'n rhaid i mi ddweud wrth Naaman!

Llefarydd:

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach ...

Gwraig Naaman:

Ble mae fy morwyn fach? Yr un o Israel.

Y Llances:

Dyma fi, meistres. Mae fy ngŵr eisiau dy weld di. Mae o newydd ddod yn ôl o Israel, ac mae o wedi gweld dy broffwyd di.

Y Llances:

Ydy o'n well?

Gwraig Naaman:

Nac ydy, dim o gwbl, ac mae o mewn tymer wyllt.

Y Llances:

Pam hynny, meistres?

Gwraig Naaman:

Dwn i ddim wir. Does dim posibl siarad yn gall ag o, ond mae o eisiau dy weld di.

(Mae'r llances yn symud i ochr y llwyfan)

Y Llances:

Dyma fi, fy meistr. Beth sy'n bod?

Naaman:

Beth sy'n bod? Beth sy'n bod?! Wel, mi ddyweda i wrthyt ti beth sy'n bod. Rwyf wedi cael fy sarhau – dyna beth sy'n bod.

Y Llances:

Dwi ddim yn deall, syr!

Naaman:

Wedi cael fy sarhau, dywedais i ... gan dy broffwyd pitw di yng ngwlad Israel.

Y Llances:

Sut hynny, meistr?

Naaman:

'Cer i ymolchi,' meddai wrthyf fi – fi, Tywysog Ilu Frenin Syria – “cer i ymolchi saith gwaith yn afon Iorddonen.'

Y Llances:

Wnaethoch chi?

Naaman:

Naddo'n wir! A phrun bynnag, mae 'na ddigon o ddŵr i'w gael yn Syria – oes yn wir!

Y Llances:

Ie, afonydd hardd iawn yw afonydd eich gwlad chi, meistr. Mae'r enwau hyd yn oed yn hyfryd. Abana a Pharpar ... ond –

Naaman:

Ond beth?

Y Llances:

Wedi meddwl oeddwn i – petai Eliseus wedi gofyn i chi wneud rhywbeth mawr ac anodd, a fyddech chi wedi'i wneud o?

Naaman:

Wel byddwn, mae'n debyg.

Y Llances:

A ruan am ei fod o'n dweud mai rhywbeth syml iawn fel ymolchi yn yr lorddonen fydd yn eich iacháu, dydych chi ddim yn fodlon ei wneud o?

Naaman:

Na! Ddim dyna pam ... mae'n anodd egluro.

Y Llances:

Falle eich bod yn meddwl eich bod yn rhy bwysig i ymolchi yn yr lorddonen?

Naaman:

Wel ... y ...

Y Llances:

Rwy inne'n meddwl fod Eliseus wedi gofyn i chi wneud rhywbeth mawr iawn – rhywbeth rhy anodd i chi efallai.

Naaman:

Rhy anodd? Ymolchi yn yr lorddonen! Hy!

Y Llances:

Mae Eliseus wedi gweld eich bod yn wŵr balch, ac mae hynny yn rhwystr i chi gredu yn Nuw. Rŵan, os llyncwch eich balchder, ac ymolchi yn ein hafon ni – yr Iorddonen, yna fe fydd Duw yn siŵr o'ch helpu.

Naaman:

Wel, mae'n rhaid i mi feddwl am y peth – falle dy fod ti' n iawn wedi'r cyfan. Cawn ni weld ...

Llefarydd:

Do, fe gafodd Naaman weld ei wahanglwyf yn cilio, a sylweddoli mai Duw Israel yw'r unig wir Dduw. Weithiau, fel yn yr hanesyn a glywsom rŵan, mae person arall yn gallu bod yn fodd i arwain rhywun at Dduw. Dro arall, mae Duw yn galw'n uniongyrchol ar rywun i'w wasanaethu, a gall y person hwnnw fod yn chi neu fi.

Edrychwn ar ein cymeriad olaf o'r Hen Destament – y bachgen Samuel yn y Deml yn gwasanaethu Eli, yr offeiriad.

Cân: (dau fachgen yn canu ar yn ail ar dôn '*Ni a'th siglwn*')

Samuel:

*Eli annwyl, dyma fi
Wrth dy law;
Gelwaist arnaf,
Cefais fraw.*

Eli:

*Nage! Samuel dychwel, gorwedd,
Nage! Samuel, dychwel, gorwedd;
Cysgu'n dawel roeddwn i,
Cysgu'n dawel ddylet ti.*

Samuel:

Ddwywaith eto galwodd llais arnaf i.

Pwy sy' n galw? Pwy ond ti?

Eli:

*Gwranda, Samuel, gwranda'n ddyfal,
Gwranda. Samuel, gwranda'n ddyfal;
Clywaist lais yr Arglwydd Dduw,
Dos yn ôl a'i neges, clyw!*

Llefarydd:

Wel, dyna ni. Rydym wedi cael ychydig o hanes plant yr Hen Destament. Gadewch inni fynd drostynt unwaith eto a chofio rhywbeth pwysig am bob un ohonynt.

- | | | |
|-----|--|-------------|
| (1) | Pwy a ddaeth yn frenin? | DAF Y DD |
| (2) | Pwy a arweiniodd Naaman at Dduw? | Y LLA N CES |
| (3) | Pwy a oedd i gael ei offrymu'n aberth? | ISA A C |
| (4) | Pwy a oedd yn ddewr? | D ANIEL |
| (5) | Pwy a arweiniodd ei bobl? | M O SES |
| (6) | Pwy a glywodd lais Duw ac ufuddhau? | SAMIWE L |

(fe fydd cardiau gan y plant i ddangos adeiladu'r gair Y NADOL..)

Llefarydd:

Da iawn. Edrychwch yn fanwl ar yr atebion. Wrth sôn am blant yr Hen Destament, rydych bron â gwneud gair cyfarwydd iawn i ni i gyd.

Y NADOL ... ond mae rhai llythrennau ar goll. Pa rai ydynt?

(plant bach i ateb)

Ie! I a G ... Iesu Grist

Ie, IESU GRIST sy' n gwneud ein NADOLIG yn gyfan!

Emyn:

*I ganu gyda'r angel rhaid cael Crist, Iesu Grist,
Mae'n ddewrach fyth na Daniel, Iesu Grist;
Fel llances gynt yn Syria
Bu' n gennad dros Jehofa,*

*Fel Isaac ar Foreia, Iesu Grist, Iesu Grist,
Bu' n aberth ar Galfaria, Iesu Grist.*

*I brofi gwir Nadolig rhaid cael Crist, Iesu Grist,
Y plentyn bendigedig, Iesu Grist;
Fel Samuel bu yn ufudd,
Fel Moses, gwir arweinydd,
Yn Frenin mwy na Dafydd, Iesu Grist, Iesu Grist,
Awn ato gyda'n gilydd, Iesu Grist.*

(yr emyn i'w ganu ar dôn 'Ar gyfer heddiw'r bore')

Darlleniad: Mathew 2: 1–15

(ar ôl hyn gellir, os dymunir, ganu detholiad o garolau neu adrodd cerddi am y Nadolig neu gyflwyno dramodig y geni)

Llefarydd:

Yn y gwasanaeth hwn, buom yn sôn am blant yr Hen Destament, ond plentyn y Testament Newydd sy'n rhoi ystyr i'r Nadolig ac i'n bywydau. I ni Gristnogion, Iesu Grist yw Brenin mwyaf y byd, yr arweinydd dewra' fu erioed, y cyfaill nad oes ei debyg, a'r Un a gyflawnodd ewyllys Duw hyd angau'r groes. Mewn geiriau eraill, gwelwyd yn Iesu Grist gyfuniad o holl rinweddau plant yr Hen Destament, a mwy o lawer na hwy hefyd. Gwelwyd ynddo ogoniant Duw ei hun. Yn wir, Duw ydoedd yn y cnawd, ac eleni eto, estynnir cyfle inni lawenhau yn y digwyddiad rhyfeddol hwn, a chanu gyda'r emynydd:

*'Yn y nef gogoniant,
Hedd i ddynol-ryw;
Ganwyd heddiw Geidwad,
Crist yr Arglwydd yw!'*

Emyn: 462 – *Odlau tyner engyl*

Y Fendith:

Gras i chwi a thangnefedd oddi wrth Dduw Dad,
a'n Harglwydd Iesu Grist. Amen.